WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Datganiad o'r cyfrifoldebau o ran ardystio grantiau – **Swyddfa Archwilio Cymru**

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 707A2016

Paratowyd y ddogfen fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

# Cynnwys

Mae’r Datganiad hwn yn amlinellu cyfrifoldebau perthansol yr Archwilydd Cyffredinol, yr archwilwyr sy’n gweithio o dan ei drefniadau ar gyfer ardystio ceisiadau am grantiau a chofnodion sy’n gysylltiedig a hwythau, a’r cyrff sy’n gwborwyo neu sy’n cael y grantiau y mae angen iddynt gael eu hardystio.


Datganiad o Gyfrifoldebau

Cyflwyniad 4

Cyfrifoldebau’r Archwilydd Cyffredinol 4

Cyfrifoldebau’r archwilwyr sy’n gweithio yn unol â threfniadau’r Archwilydd Cyffredinol 7

Datganiad o Gyfrifoldebau cyrff sy'n talu grantiau 8

Datganiad o Gyfrifoldebau cyrff sy'n talu grantiau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Math arferol Tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol 11

Atodiad 2 – Geirfa 13

# Datganiad o gyfrifoldebau

## Cyflwyniad

1 Mae'r datganiad o gyfrifoldebau (y datganiad) yn amlygu cyfrifoldebau cyrff sy'n talu grantiau, cyrff sy'n cael grantiau, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r archwilwyr sy'n gweithio yn unol â'i drefniadau mewn perthynas ag ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau.

2 Gall fod angen i gyrff sy'n talu grantiau gael ardystiad gan gyfrifydd annibynnol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol i ardystio hawliadau cyrff sy'n derbyn ('cyrff sy'n derbyn') grantiau am grantiau neu gymhorthdal, a ffurflenni gwybodaeth ariannol eraill. Mae ardystio yn un ffordd o roi sicrwydd ynghylch sail hawl i grant neu gymhorthdal neu, yn achos ffurflen, y wybodaeth a roddir.

3 Mae dau ddiben i'r datganiad. Yn gyntaf, mae'n crynhoi'r fframwaith a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i wneud trefniadau ardystio ac, yn ail, mae'n helpu cyrff sy'n talu ac yn derbyn grantiau a'r archwilwyr sy'n gweithio yn unol â threfniadau'r Archwilydd Cyffredinol drwy grynhoi eu priod gyfrifoldebau.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys cyrff y GIG a chyff llywodraeth leol. Pan fydd corff perthnasol yn gofyn iddo wneud hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau ardystio ar gyfer hawliadau a ffurflenni. Cyflawnir gwaith grantiau'r Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)[1] neu gwmnïau cyfrifyddu dan gontract iddi.

5 Noder nad yw'r datganiad hwn yn gymwys i'r gwaith o ardystio hawliadau grantiau o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, gan mai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n pennu'r anghenion ar gyfer y gwaith hwnnw.

6 Am ragor o wybodaeth ynghylch arfer da o ran rheoli a gweinyddu grantiau, gweler y Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cyfrifoledbau'r Archwilydd Cyffredinol

7 O dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan gorff perthnasol, drefnu i ardystio hawliadau a ffurflenni. Gall yr hawliadau neu'r ffurflenni hyn ymwneud â grantiau neu gymhorthdal a wneir neu a delir gan Weinidogion Cymru, unrhyw un o Weinidogion y Goron neu awdurdod cyhoeddus i unrhyw un yn amodol ar archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu unrhyw Ddeddf arall.

8 Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, mae ganddo'r hawl i ddefnyddio disgresiwn rhesymol wrth gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Yn unol â hynny, gall benderfynu ar y math o drefniadau a fydd fwyaf priodol o dan amgylchiadau penodol pob achos.

9 Wrth wneud trefniadau, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried yr hyn sy'n briodol i'w ddisgwyl o ran gwaith archwilwyr o dan y broses ardystio. Bydd ACC:

- ond yn gwneud trefniadau os yw'n ofynnol gan gorff perthnasol; ac
- yn negodi'r trefniadau hynny gan ystyried yr hyn sy'n briodol, yn ymarferol ac yn broffesiynol.

Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi am gost lawn unrhyw waith ardystio a wneir yn unol â threfniadau'r Archwilydd Cyffredinol. Fel arfer, mae'r ffi hwn yn daladwy gan y corff sy'n derbyn y grant, er y gall y corff sy'n talu'r grant ddewis talu ffi'r archwilydd yn uniongyrchol, neu ddarparu cyllid penodol i'r corff sy'n derbyn i gwrdd â'r costau ardystio. Mewn rhai achosion, a gyda disgresiwn y corff sy'n talu, mae'n bosib y bydd y costau ardystio a achoswyd gan y corff sy'n derbyn y grant yn gost a ganiateir o fewn termau ac amodau'r cynllun grant ei hun.

10 Mae yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sy'n talu grantiau gael ei gytundeb ffurfiol drwy gyfrwng Grŵp Technegol Archwilio Ariannol SAC ar lefel cynllun neu raglen y gwnaiff drefniadau ardystio, **cyn** i ardystiad gan yr Archwilydd Cyffredinol neu archwilwyr yn gweithio'n unol â'i drefniadau gael ei wneud yn amod grant. I'r perwyl hwn, mae SAC yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwr cyllid priodol, neu'r hyn sy'n cyfateb iddo, o'r corff sy'n talu grantiau gysylltu â Grŵp Technegol Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gam cynnar, gan ofyn am ardystiad gan archwilydd. Mae'r Grŵp Technegol yn gofyn am gyfnod **o 20 diwrnod gwaith o leiaf i ymateb i'r corff sy'n talu grantiau**. Ceidw'r Archwilydd Cyffredinol yr hawl i wneud trefniadau ardystio gohiriedig neu gyfyngedig pan na fydd cyrff sy'n talu grantiau wedi cael cytundeb cynnar y Grŵp Technegol ar y trefniadau ardystio, neu pan na fyddant wedi rhoi digon o rybudd.

11 Rhoddir manylion y trefniadau ardystio y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu gwneud fel arfer isod, er y gall y rhain amrywio o un cynllun i'r llall drwy gytundeb gyda'r corff sy'n talu'r grant. Ar gyfer cynlluniau blynyddol, mae'r terfynau ariannol yn cyfeirio at gyfanswm y swm a gaiff ei hawlio, yn hytrach na'r grant a ddyrennir neu gyfanswm y gwariant cymwys. Yn achos prosiectau, mae'r terfyn ariannol yn cyfeirio at gyfanswm y swm y gellir ei hawlio tra bo'r prosiect ar waith:

- Ar gyfer hawliadau a ffurflenni sydd islaw swm de-minimis a bennir gan yr Archwilydd Cyffredinol, ni wneir trefniadau ardystio fel arfer (heblaw am unrhyw ofyniad ardystio statudol neu unrhyw ofyniad ardystio a bennir yn nhelerau ac amodau'r grant). Y swm de-minimis arferol presennol yw £100,000, er y caiff ei adolygu bob blwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol a gall amrywio o un cynllun i'r llall. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai na fydd y swm de-minimis yn gymwys o gwbl e.e. hawliadau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Dylid cyfeirio at y Cyfarwyddydd Ardystio unigol am ragor o fanylion.
- Ar gyfer hawliadau a ffurflenni sydd uwchlaw'r swm de-minimis (fel sy'n berthnasol i'r cynllun), bydd archwilwyr yn asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r hawliad neu'r ffurflen, yn defnyddio eu hasesiad o'r risgiau hyn i lywio penderfyniadau ynghylch lefel y profion (meintiau sampl) sy'n ofynnol ac yn cynnal yr holl brofion yn y cyfarwyddyd ardystio.

12 Mae Archwilydd Cyffredinol yn darparu canllawiau cyffredinol ar sut i ardystio hawliadau a ffurflenni i archwilwyr sy'n gweithio'n unol â'i drefniadau yn ei 'Gyfarwyddiadau Ardystio Cyffredinol' CA A01 (sydd ar gael gan Grŵp Technegol Archwilio Ariannol drwy e-bostio waogrants@archwilio.cymru). Nodir y math arferol o dystysgrif archwilydd yn Atodiad 1 i'r datganiad hwn. Lle y bo angen math gwahanol o dystysgrif, tynnir sylw archwilwyr at hyn yn y CA sy'n benodol i gynllun a chânt y dystysgrif berthnasol yn unol â hynny.

13 Mae'r trefniadau ardystio a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys cyfres o CAu y mae'n rhaid archwilwyr dynodedig eu dilyn. Mae'r dystysgrif a gynhwysir ar bob hawliad neu ffurflen yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd gymhwyso'r holl brofion yn y CA perthnasol. Mae'r CA perthnasol yn benodol i bob cynllun ond mae angen ei ddarllen ar y cyd â CA A01, sy'n darparu gwybodaeth gefndirol ac yn esbonio'r dull gweithredu cyffredinol a'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu.

14 Yn wahanol i archwiliad allanol o gyfrifon blynyddol, mae gwaith ardystio sy'n defnyddio cyfarwyddiadau ardystio yn archwiliad gwahanol wedi ei gynllunio i ddarparu casgliad 'sicrwydd negyddol'. Fel arfer, mae'r casgliad hwn yn datgan 'nad oes unrhyw beth wedi dod i sylw'r archwilwyr i nodi nad yw'r hawliad neu'r ffurflen wedi'u datgan yn deg ac wedi'u cwblhau yn unol â thelerau ac amodau penodol'. **Nid yw** Safonau Archwilio Rhyngwladol a Nodyn Ymarfer 10 y Archwilio Cyhoeddus **yn gymwys** i waith ardystio ond mae Cod Ymarfer Archwilio newydd yr Archwilydd Cyffredinol (a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2014) yn gymwys. Casgliad sicrwydd negyddol sy'n arferol o dan drefniadau yr Archwilydd Cyffredinol. Os oes angen trefniadau gwahanol, bydd Grŵp Technegol Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod hyn â'r Corff sy'n Talu Grantiau. Ar gyfer cynlluniau sy'n gymwys i'r DU gyfan (ee Cymhorthdal Budd-daliadau Tai) bydd archwilwyr yn gweithredu mewn ffordd sy'n debyg i gyrff Fforwm Archwilio Cyhoeddus eraill ac ni fyddant yn cymhwyso math o sicrwydd sy'n benodol i Gymru.

15 Diben Cau yw nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ystyried hawliad neu ffurflen a sicrhau bod cyrff sy'n talu grantiau a'u harchwilwyr yn gwbl glir ynghylch natur y gwaith a wneir gan archwilwyr cyn rhoi eu tystysgrif. Maent hefyd yn cyfleu llawer o'r wybodaeth gefndirol y byddai archwilwyr ardystio yn gorfod chwilio amdani fel arall, gan felly leihau'r costau cyffredinol i archwilwyr a chyrff sy'n cael grantiau.

16 Mae Grŵp Technegol Archwilio Ariannol SAC yn gyfrifol am ddrafftio CAu, cytuno ar fersiynau drafft CAu sy'n benodol i gynllun gyda chyrff sy'n talu grantiau, cynnal ymgynghoriadau priodol ar CAu ar gyfer cynlluniau newydd, cyhoeddi Cau ac ymateb i ymholiadau gan archwilwyr wrth gymhwyso CAu. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgynghori ag archwilwyr sy'n gweithio yn unol â threfniadau'r Archwilydd Cyffredinol lle y ceir newidiadau sylweddol i ofynion ardystio cyffredinol e.e. y math o sicrwydd a roddir (er nid newidiadau i gynlluniau unigol). Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymdrin ag ymholiadau oddi wrth gyrff sy'n talu grantiau sy'n codi ar ôl ardystiad archwilydd lle y gall fod angen cyfeirio at yr archwilydd ymhellach. Mae'r Grŵp Technegol yn paratoi Cau at ddefnydd yr archwilwyr sy'n gweithio yn unol â threfniadau'r Archwilydd Cyffredinol yn unig. Fodd bynnag, nid yw Cau ar gael i gyfrifwyr annibynnol eraill a benodir gan gyrff sy'n cael grantiau ac nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eu defnydd heblaw am ddefnydd gan ei archwilwyr sy'n gweithio'n unol â'i drefniadau.

# Datganiad o gyfrifoldebau archwilwyr sy’n gweithio’n unol â threfniadau’r Archwilydd Cyffredinol

17 Mae'n ofynnol i bob archwilydd wneud y canlynol:

- adolygu'r wybodaeth a geir yn yr hawliad neu'r ffurflen a mynegi casgliad sicrwydd negyddol ar yr hawliad neu'r ffurflen. (Daw archwilwyr i'r casgliad nad oes unrhyw beth wedi dod i'w sylw i nodi nad yw'r hawliad neu'r ffurflen wedi'i datgan yn deg ac nad yw'n unol â'r telerau ac amodau perthnasol);
- ystyried yr hawliad neu'r ffurflen a chyfrifon a chofnodion cysylltiedig y corff sy'n cael grantiau yn unol â CA A01 a'r CA sy'n benodol i'r hawliad neu'r ffurflen. Wrth wneud y gwaith hwn, bydd yr archwilydd yn cael y fath dystiolaeth ac esboniadau gan y corff sy'n cael grantiau fel sy'n angenrheidiol ym marn yr archwilydd i lunio casgliad sicrwydd negyddol. Mater o farn broffesiynol yw lefel y profion a gynhelir yn ôl amgylchiadau penodol y corff sy'n cael grantiau a'r hawliad neu'r ffurflen yn ogystal ag asesiad risg yr archwilydd. Lle y caiff maint sampl gofynnol ei nodi yn y CA perthnasol, rhaid i'r archwilydd ddefnyddio barn broffesiynol i bennu a oes angen cynnal profion uwchlaw'r lefel ofynnol honno o dan yr amgylchiadau penodol;
- yn amodol ar gydymffurfio â gofynion CA, gwneud gwaith ar y materion hynny sydd, ym marn yr archwilydd, yn cael effaith sylweddol ar yr hawliad neu'r ffurflen. Wrth asesu'r graddau y mae symiau a gynhwysir mewn hawliad neu ffurflen yn unol â'r amodau sy'n berthnasol, mae'r archwilydd yn gweithredu fel cyfrifydd proffesiynol ac nid arbenigwr cyfreithiol;
- cynllunio a chwblhau eu gwaith mewn modd amserol fel y bodlonir terfynau amser, lle bo hynny’n bosibl; a
- chwblhau tystysgrif yr archwilydd, wedi'i amodi fel y bo angen, yn unol â'r canllawiau cyffredinol yn CA A01 a rhoi copïau o hawliadau a ffurflenni ardystiedig i gyrff sy'n cael grantiau a Grŵp Technegol Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd ag unrhyw nodiadau adborth ardystio neu lythyrau cymhwyso er gwybodaeth. Darperir tystysgrif a llythyr cymhwyso'r archwilydd at ddefnydd y corff sy'n talu grantiau a'r corff sy'n cael grantiau. Ni ddylai archwilwyr ddatgelu tystysgrifau na llythyrau cymhwyso, yn llawn neu'n rhannol, i drydydd partïon heblaw am y rheini â hawliau mynediad statudol iddynt. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, neu archwilydd arall corff sy'n talu grantiau, ddefnyddio tystysgrif yr archwilydd a'r llythyr cymhwyso mewn perthynas ag archwilio'r corff sy'n talu grantiau; a
- darparu adroddiad adborth blynyddol i awdurdodau unedol ar ganlyniadau eu gwaith ardystio.

18 O ganlyniad i gyfyngiadau cynhenid unrhyw strwythur rheoli, gall gwallau neu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, ddigwydd a pharhau heb eu canfod. Yn unol â hynny, mewn perthynas â hawliadau neu ffurflenni mae'r archwilydd yn gyfrifol am fynegi casgliad sicrwydd negyddol, ar sail tystiolaeth briodol a digonol o ran y profion a geir mewn cyfarwyddiadau ardystio, fod tystiolaeth yn ddarbwyllol yn hytrach nag yn bendant.

19 Yn arbennig, nid yw'r trefniadau hyn felly yn gwneud archwilwyr yn gyfrifol am nodi pob gwall mewn hawliad neu ffurflen; nac ychwaith yn sicrhau bod hawl y corff sy'n cael grantiau i incwm oddi tano ar y lefel uchaf posibl. Felly, nid yw archwilwyr yn cynnal profion manwl i'r graddau a fyddai'n angenrheidiol i ddatgelu pob gwall a methiant i sicrhau bod hawl yn cyrraedd y lefel uchaf posibl, ac ni ddylid dibynnu ar y broses ardystio i ddatgelu pob mater o'r fath (gan felly lunio casgliad sicrwydd negyddol).

20 Bydd archwilwyr fel arfer yn cyflwyno tystysgrif ar y ffurf a ragnodwyd yn Atodiad 1 i'r cyflwyniad i'r datganiadau (ac yn CA A01) lle na ragnodir unrhyw fath arall o dystysgrif. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gwnaiff archwilwyr gyflwyno ffurflen ar ffurf arall a lle y bo'r CA perthnasol yn gofyn am hynny.

# Datganiad o Gyfrifoldebau Cyrff sy'n Talu Grantiau

21 Mae gan y Corff sy'n Talu Grantiau bump o gyfrifoldebau:

- nodi telerau ac amodau cadarn ac ymarferol ar gyfer grantiau, sydd:
  – ar gael yn amserol;
  – yn meddu ar nodau ac amcanion clir o ran y cynllun;
  – yn darparu diffiniadau clir;
  – yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau clir; ac
  – sy'n cynnwys unrhyw sancsiynau a fydd yn gymwys lle ceir achos o ddiffyg cydymffurfio;
- darparu ffurflenni hawlio a ffurflenni eraill, sydd:
  – ar gael yn amserol;
  – wedi'u cynllunio'n briodol er mwyn dwyn ynghyd y wybodaeth berthnasol;
  – yn cynnwys nodiadau cwblhau priodol;
  – yn seiliedig ar arferion cyfrifyddu priodol (heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol);
  – yn cynnwys tystysgrifau priodol ar gyfer y corff sy'n cael grantiau (y mae'n rhaid eu cwblhau cyn cael eu trosglwyddo i archwilwyr) ac archwilwyr (lle y bo'n briodol); ac
  – yn cynnwys amserlen ragnodedig ar gyfer y gwaith cwblhau ac ardystio;
- nodi gofynion priodol ar gyfer y corff sy'n cael grantiau ac anghenion ardystio’r archwilydd, gan gynnwys:
  – pwy a gaiff roi tystysgrif y corff sy'n cael grantiau ar gyfer yr hawliad neu'r ffurflen, a
  – pha archwilydd a gaiff ei hardystio (fel arfer naill ai unrhyw gyfrifydd annibynnol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol, yr Archwilydd Cyffredinol neu archwilydd yn gweithio’n unol â’i drefniadau);
- sicrhau y ceir sicrwydd priodol o dystysgrifau a roddir gan Brif Swyddogion Cyllid; ac
- ystyried yn ofalus a oes angen i archwilydd ardystio cynllun penodol gan ystyried y risgiau, eu natur a'r symiau dan sylw mewn perthynas â gwerth y sicrwydd a geisir a chost debygol proses ardystio.  Ni ddylai fod angen i archwilydd ardystio o dan rai

amgylchiadau e.e. hawliadau bach; gwariant sy'n rheolaidd neu y gellir ei ragfynegi dros amser neu le mai prin yw'r darpariaethau amodol ac nid oes unrhyw delerau cymhleth; neu lle mae gwybodaeth neu ddata arall ar ganlyniadau ar gael i roi sicrwydd ynghylch y defnydd priodol o arian grant (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

22 Pan gynigir ardystiad gan archwilydd allanol, rhaid i'r Corff sy'n Talu Grantiau gysylltu â'r Grŵp Technegol Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghaerdydd i drafod y trefniadau hyn cyn eu cyflwyno fel amod grant. Os bydd yn ardystiad yn unol â threfniadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ofynnol wedyn, rhaid i'r Corff sy'n Talu Grantiau gael ei gytundeb ffurfiol. Dylai ymgynghori â Grŵp Technegol Archwilio Ariannol, SAC yn amserol fel y gellir cytuno ar y trefniant mwyaf priodol (gweler paragraff 10, uchod, sy'n esbonio y dylid gadael o leiaf ugain diwrnod gwaith i'r Grŵp Technegol i ymateb i gais am ardystiad). Yn olaf, dylai ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau cyffredinol y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu rhoi i'r archwilwyr sy'n gweithio'n unol â'i drefniadau yng Nghyfarwyddiadau Ardystio Cyffredinol CA A01 (sydd ar gael gan y Grŵp Technegol drwy e-bostio waogrants@archwilio.cymru).

23 Rhaid i gyrff sy'n talu grantiau ymdrin yn brydlon â thystysgrifau cymwys ar gyfer hawliadau neu ffurflenni er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu datrys ac nad ydynt yn codi bob blwyddyn. Bydd y Grŵp Technegol yn Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro tystysgrifau a gaiff eu cymhwyso ac yn ceisio cael tystiolaeth o'r broses adolygu hon a fydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r penderfyniad i gadw cynllun yn y rhaglen waith.

# Datganiad o Gyfrifoldebau Cyrff sy'n Cael Grantiau

24 Ar y cyfan mae cyrff sy'n cael grantiau yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi hawliadau a ffurflenni yn briodol ac yn gywir a sefydlu systemau gweinyddol ac ariannol effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau priodol i atal a chanfod twyll neu wallau. Golyga hyn fod angen i hawliadau a ffurflenni;
  - gael eu cwblhau'n gywir ac yn unol â thelerau ac amodau;
  - cael eu hategu gan systemau rheolaeth fewnol, sy'n ddigonol ac yn effeithiol yn ymarferol;
  - cael eu cwblhau'n amserol fel y bodlonir terfynau amser;
  - cael eu hategu gan bapurau gwaith digonol, sy'n:
    - bodloni'r gofyniad ar y Swyddog Cyfrifyddu/Prif Swyddog Cyllid i gadw cofnodion digonol mewn perthynas â hawliadau;
    - dogfennu sail yr hawliad neu'r ffurflen ac o ble y daw'r wybodaeth ynddi; a
    - chael eu cadw ar ffurf a fydd yn helpu'r archwilydd ac yn lleihau'r amser ardystio ac, felly, y gost i'r corff sy'n cael grantiau; a
    - bod yn destun systemau goruchwylio ac adolygu priodol cyn cwblhau eu tystysgrif.
- bodloni eu hunain y byddant yn gallu cydymffurfio â thelerau ac amodau grant, yn cynnwys gofynion ardystio archwilydd; a

- goruchwylio ac adolygu hawliadau neu ffurflenni wedi'u cwblhau'n briodol cyn cwblhau eu tystysgrifau.

25 Yn benodol, mae Prif Swyddog Cyllid y corff sy'n cael grantiau yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu ategol:

- yn ddigonol i ddangos ei drafodion; ac
- yn cael eu cadw'n unol ag arferion priodol a'u diweddaru;
- ac yn cynnwys cofnod incwm a gwariant mewn perthynas â hawliadau.

26 Rhoddir tystysgrif y corff sy'n cael grantiau gan uwch swyddog priodol, y Prif Swyddog Cyllid fel rheol, neu swyddog sydd wedi'i awdurdodi gan bwerau dirprwyedig ysgrifenedig. **Dim ond pan fydd y swyddog ardystio yn fodlon ar y cofnodion a wnaed y dylid rhoi tystysgrif y corff sy'n cael grantiau. Ni wnaiff archwilwyr ardystio hawliadau na ffurflenni lle nad yw tystysgrif y corff sy'n cael grantiau wedi'i chwblhau.**

27 Lle y bydd angen i hawliadau neu ffurflenni gael eu hardystio gan archwilydd, mae'r cyrff sy'n cael grantiau yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond gan archwilydd sy'n dderbyniol i'r corff sy'n talu grantiau y cânt eu hardystio. Caiff cyrff sy'n talu grantiau fynnu mai'r Archwilydd Cyffredinol neu archwilydd sy'n gweithio'n unol â'i drefniadau, neu unrhyw gyfrifydd arall sy'n annibynnol ac yn meddu ar y cymwysterau priodol, sy'n gyfrifol am ardystio yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

28 Pan fydd corff sy'n cael grantiau yn bwriadu gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol neu archwilydd yn gweithio'n unol â'i drefniadau i ardystio hawliad neu ffurflen, fe ddylai, cyn derbyn telerau ac amodau'r grant, gadarnhau â'r corff sy'n talu grantiau ei fod wedi cael cytundeb ffurfiol yr Archwilydd Cyffredinol i wneud trefniadau ardystio. Ni ddylai cyrff sy'n cael grantiau gymryd yn ganiataol y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau ardystio'n awtomatig a/neu yn darparu tystysgrifau yn y modd sy'n ofynnol gan y corff sy'n talu grantiau.

29 Pan fydd corff sy'n cael grantiau yn trefnu i hawliadau neu ffurflenni gael eu hardystio heblaw am drwy drefniadau'r Archwilydd Cyffredinol, mae angen iddo allu dangos i'r corff sy'n talu grantiau, os oes angen, fod y cyfrifydd yn annibynnol ac yn meddu ar unrhyw gymwysterau a nodir gan y corff sy'n talu grantiau.

# Atodiad 1

## Math arferol o Dystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

**Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Mae Datganiad o Gyfrifoldebau cyrff sy'n talu ac sy'n derbyn grantiau, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r archwilwyr sy'n gweithio'n unol â'i drefniadau mewn perthynas ag ardystio hawliadau a ffurflenni yn nodi priod gyfrifoldebau'r partïon hyn. Mae hefyd yn gosod y cyfyngiadau o ran cyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r archwilwyr sy'n gweithio'n unol â'i drefniadau.

Rwyf / Rydym wedi archwilio'r cofnodion ar y ffurflen hon (sy'n disodli neu'n diwygio'r ffurflen wreiddiol a gyflwynwyd i mi / i ni gan y corff sy'n derbyn grantiau, dyddiedig __________)* a chyfrifon a chofnodion cysylltiedig y corff hwnnw yn unol â Chyfarwyddyd Ardystio A01, ac wedi cynnal y profion yng Nghyfarwyddyd Ardystio rhif ___________ ac wedi cael tystiolaeth ac esboniadau sydd eu hangen yn fy marn i / ein barn ni.

(Ac eithrio'r materion a godwyd yn y llythyr amodi atodedig dyddiedig __________)*

Rwyf / Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes dim wedi dod i'm sylw / i'n sylw i nodi nad yw'r hawliad neu'r ffurflen:

- wedi'u datgan yn deg; ac
- wedi'u cwblhau yn unol â'r telerau a'r amodau perthnasol.

Llofnod _________________________

Enw (priflythrennau) _____________________

(ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru)

Dyddiad _________________________

**Dileer fel y bo angen*

**CF1 (5/16)**

# Atodiad 2

## Geirfa

**Archwilydd**. At ddiben ardystio hawliadau a ffurflenni o dan atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r archwilydd yn gweithredu fel asiant Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn rhinwedd y rôl hon, er ei fod yn gymwys i weithredu fel archwilydd allanol annibynnol, mae'r archwilydd penodedig yn gweithredu fel cyfrifydd proffesiynol gan ymgymryd ag ymarfer sicrwydd a lywodraethir gan drefniadau cyfarwyddyd ardystio ACC. Mae'r term yn cyfeirio at 'Arweinydd Ymgysylltu' dynodedig ACC sef yr archwilydd sy'n gyfrifol am y gwaith ardystio.

Mae **ymarfer sicrwydd** yn ymarfer a gyflawnir gan gyfrifydd proffesiynol lle y caiff pwnc testun y mae parti arall yn gyfrifol amdano ei werthuso neu ei fesur yn erbyn meini prawf addas a nodwyd. Y nod yw dod i gasgliad a fydd yn rhoi elfen o sicrwydd i'r defnyddiwr bwriadedig ynghylch y pwnc testun hwnnw.

Mae **Cyfarwyddiadau Ardystio (CAu)** yn gyfres o gyfarwyddiadau ysgrifenedig oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol i'r archwilwyr sy'n gweithio yn unol â'i drefniadau mewn perthynas ag ardystio hawliadau a ffurflenni.

Mae **ardystio** yn golygu'r broses o gwblhau tystysgrif ar hawliad neu ffurflen gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) neu archwilydd yn gweithio yn unol â'i drefniadau. Cynhwysir y math arferol o dystysgrif yn Atodiad 1 y datganiad hwn.

Mae **hawliadau** yn cynnwys hawliadau am grantiau neu gymhorthdal a thaliadau cytundebol sy'n ddyledus o dan gytundebau asiantaeth, cynlluniau cydariannu neu fel arall.

Mae **cyrff sy'n talu grantiau** yn cynnwys adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill y mae angen cwblhau hawliadau a ffurflenni ar eu cyfer;

Mae **sicrwydd negyddol** yn disgrifio'r broses lle mae archwilwyr yn cyflawni'r fath weithdrefnau (fel sy'n ofynnol o dan CAu y cynllun) er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n darparu digon o dystiolaeth briodol i'r archwilydd ddod i gasgliad sicrwydd negyddol. Byddai'r casgliad hwn yn nodi 'nad oes unrhyw beth wedi dod i sylw'r archwilwyr i nodi nad yw'r hawliad neu'r ffurflen wedi'u datgan yn deg ac wedi'u cwblhau yn unol â thelerau ac amodau penodol'. Dyma'r math o sicrwydd a roddir fel arfer o dan drefniadau'r Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, gall fod adegau lle y bydd mathau amgen o sicrwydd a thystysgrifau'n briodol. Mewn achosion o'r fath bydd pob parti yn cael ei wneud yn ymwybodol o'r trefniadau amgen y cytunwyd arnynt.

Bydd angen **rhoi amod** lle ceir naill ai anghytundeb rhwng yr archwilydd a'r corff sy'n cael grantiau - neu ansicrwydd - ynghylch yr hyn a gofnodir yn yr hawliad neu'r ffurflen sy'n pennu hawl. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd tystysgrif yr archwilydd yn cyfeirio at lythyr cymhwyso ategol sy'n nodi'r ffeithiau - fel y cytunwyd arnynt gan yr archwilydd a'r awdurdod - fel y gall y corff sy'n talu grantiau wedyn bennu'r hawl wirioneddol.

Mae **cyrff sy'n derbyn grantiau** yn golygu:

- corff llywodraeth leol yng Nghymru, o fewn yr ystyr a roddir yn adran 12(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;
- awdurdod lleol yng Nghymru;
- pwyllgor awdurdod lleol yng Nghymru (gan gynnwys cydbwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru);

- awdurdod iechyd porthladd ar gyfer ardal iechyd porthladd sy'n gyfan gwbl yng Nghymru;
- awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- bwrdd cadwraeth a sefydlwyd drwy orchymyn y Cynulliad o dan adran 86 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;
- awdurdod yr heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;
- awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;
- bwrdd draenio mewnol ar gyfer ardal ddraenio fewnol sy'n gyfan gwbl yng Nghymru;
- bwrdd prawf lleol a sefydlwyd o dan adran 4 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 ar gyfer ardal yng Nghymru);
- ymddiriedolaeth brawf yng Nghymru (fel y diffinnir gan baragraff 13(6) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007;

neu

- corff y mae ei gyfrifon, neu ei ddatganiad o gyfrifon, yn 'gyfrifon archwiliadwy' y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu harchwilio (yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed drwy rinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 neu unrhyw Ddeddf arall) sydd wedi gofyn am i'w hawliadau a'u ffurflenni gael eu hardystio o dan baragraff 20 o atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn **Gorff perthnasol** fel y diffinnir ym mharagraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae **ffurflenni** naill ai'n:
  - ffurflenni o ran grant nad ydynt yn gyfystyr â hawliad, er enghraifft, datganiadau o wariant a all gael eu defnyddio gan y corff sy'n talu grantiau i bennu hawl i grant; neu
  - ffurflenni heblaw am y rheini sy'n ymwneud â grant, y mae'n rhaid iddynt gael eu hardystio neu a all gael eu hardystio gan archwilydd y corff sy'n cael grantiau, neu o dan drefniadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

**Cofnodion ategol** yw'r cyfrifon, data a phapurau gwaith eraill sy'n ategu cofnodion ar hawliad neu ffurflen.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.